Dyddiad: Dydd Llun 12 Hydref

Amser: 18:30

Lleoliad: Prif Ystafell yr Undeb

Yn gwasanaethu:

Dan Meehan (yn cymryd nodiadau)

## 1. Croeso a Chyflwyniadau

Dechreuodd y cyfarfod am 18:40 gyda'r cadeirydd (GE) yn croesawu pawb sy'n bresennol i'r cyfarfod a'u diolch am fynychu. Hefyd, darparodd y Cadeirydd drosolwg o sut y buasai'r cyfarfod yn gweithredu a'r hyn a fuasai yn yr agenda.

## 2. Cymeradwyo Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol

Cynigiodd Lauren Marks (LM) a Lewis Donnelly (LD) i'r cofnodion gael eu cymeradwyo gan y Cyngor. Pasiwyd y cofnodion fel gwir gyfrif o'r cyfarfod blaenorol.

## 3. Eich Syniadau

a. **Atodlen 3 ac Is-ddeddf 1 newydd** Siaradodd JD o blaid y Cyngor yn mabwysiadu'r syniad. Ni dderbyniwyd cwestiynau o'r llawr, ac ni siaradodd unrhyw un yn erbyn y syniad.

   *Pleidlais (Syniad):* Pasiwyd

b. **Rhyddhau Cyllid Clybiau Chwaraeon a Chymdeithasau Segur:** Rhoddodd KK drosolwg a'r rhesymau pam ddylai'r Cyngor dderbyn y syniad. Ni dderbyniwyd cwestiynau o'r llawr, ac ni siaradodd unrhyw un yn erbyn y syniad.

   *Pleidlais (Syniad):* Pasiwyd

c. **Tai Preifat yn Aberystwyth** Rhoddodd Poppy Evans (PE) drosolwg a'r rhesymau pam ddylai'r Cyngor dderbyn y syniad.

   *Cwestiwn o'r Llawr*: "Pa fath o weithdrefn ydych chi am ei gweld mewn lle; fydd yno weithdrefn apeliadau ar gyfer landlordiaid?" Nododd PE y byddai yno system raddio

mewn lle i wahaniaethu rhwng cwynion dilys a rhai annilys. Ychwanegodd PE fod hwn yn un rheswm pam y byddent angen cefnogaeth undeb y myfyrwyr.

*Cwestiwn o'r Llawr*: "Yn gyntaf, ydy eich grŵp *Aber Lefties* wedi ymaelodi'n ffurfiol â'r Undeb, a phwy fyddai'n gwneud penderfyniad ynglŷn â gosod landlordiaid ar "restr ddu"? Hysbysodd PE y Cyngor nad yw'r grŵp yn swyddogol, serch hynny, y grŵp fyddai'n gwneud y penderfyniadau, a hynny ar y cyd.

*Cwestiwn o'r Llawr*: "Sut fyddech chi'n sgorio'r system raddio? Fyddwch chi'n dilyn systemau graddio ar gyfer llety sy'n gweithredu ledled y DU?" Nododd PE y byddai'r maes penodol hwn angen cefnogaeth gan Undeb y Myfyrwyr.

*Cwestiwn o'r Llawr*: "Oes gennych chi ffigwr ar gyfer faint o fyfyrwyr sy'n anfodlon â'u llety a/neu eu landlordiaid?" Nododd PE y byddai'r arolwg arfaethedig yn darparu'r ffigwr hwnnw, ac y byddai gwybodaeth bellach ar gael unwaith y byddai canlyniadau arolwg Undeb y Myfyrwyr yn cael eu cyhoeddi.

i. *Gwelliant:* Awgrymodd PE gynnwys "*galw ar Undeb y Myfyrwyr i roi sêl bendith ar yr arolwg tai*".
   Siaradodd IJ o blaid y gwelliant, gan nodi y byddai cefnogaeth gan Undeb y Myfyrwyr yn caniatáu ar gyfer trafodaeth ystyrlon gan osgoi gwrthdaro diangen.
   Siaradodd LM yn erbyn y gwelliant gan nodi y byddai hyn yn dyblu gwaith ac o bosib yn gwanhau'r neges.

   ***Pleidlais (Gwelliant):* Cwympodd**
ii. *Gwelliant*: Galwodd JS am welliant ychwanegol yn gofyn i'r "*arolwg gael ei ohirio tan ar ôl i ganlyniadau arolwg Undeb y Myfyrwyr gael eu rhyddhau*."
   Siaradodd IJ yn erbyn y gwelliant, gan nodi y byddai hyn yn oedi'r arolwg, ac y byddai'r canlyniadau yn ddiwerth.

Pwynt o Wybodaeth: Hysbysodd LD y Cyngor ynglŷn â'r mesurau presennol a'r systemau graddio sydd eisoes mewn lle i fonitro safonau llety, gan ddwyn sylw at y ffaith y gall Undeb y Myfyrwyr helpu, ond bod yr amseru'n golygu na ellir rhyddhau adnoddau ar hyn o bryd.

***Pleidlais (Gwelliant):*** **Pasiwyd**

Tynnwyd y syniad yn ôl gan y cynigydd, a chymeradwywyd hyn gan y Cyngor.

## 4 Adroddiadau'r Swyddogion

Cyflwynwyd adroddiad ysgrifenedig gan y Swyddog Addysg, ac nid oedd gan y swyddogion eraill unrhyw ddiweddariadau i'w cyflwyno i'r Cyngor.

## 5 Unrhyw Fusnes Arall

a. Codwyd y mater o ddigwyddiadau, gan roi sylw penodol i'r nifer fach sy'n mynychu digwyddiadau a drefnir. Rhoddwyd eglurhad ynglŷn â chael digwyddiadau wedi'u trefnu'n allanol, a chytunwyd y byddai Undeb y Myfyrwyr yn cyfathrebu'r manylion perthnasol i'r aelodaeth.

## 6 Cofiwch y Dyddiad!

Cynhelir y cyfarfod nesaf ar **ddydd Llun 1af Chwefror 2016 am 6:30pm**.

Gorffennodd y cyfarfod am 19:30